Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Rachel Duckitt**

**Caerdydd**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/03/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 Ionawr 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn meithrin cydberthnasau cynnes â'r gwarchodwr plant. Maent yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad, ac maent yn cyfleu eu hanghenion yn hyderus. Maent yn cael eu hannog gan y gwarchodwr plant ac yn siarad yn rhydd. Mae'r plant yn gwybod y gwrandewir arnynt a bod eu barn o bwys.

Mae'r gwarchodwr plant yn garedig ac yn cefnogi'r plant mewn modd pwyllog a chadarnhaol. Mae'n ymwybodol o'r gweithdrefnau y mae'n rhaid iddi eu dilyn i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r gwarchodwr plant yn paratoi gweithgareddau llawn hwyl a phrofiadau chwarae sy'n hybu datblygiad y plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ei chartref yn amgylchedd diogel a chyfforddus i'r plant. Mae'n monitro ac yn rheoli peryglon a risgiau yn effeithiol. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau a chyfleusterau i alluogi'r plant i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau.

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithredu mewn modd proffesiynol ac yn drefnus iawn. Mae'n rheoli ei lleoliad yn dda, yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith ganddi i sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae'r rhieni yn canmol y gwarchodwr plant a'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu yn fawr.

## Llesiant Da

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo yng nghartref y gwarchodwr plant. Maent yn symud yn rhydd o amgylch yr ystafell chwarae ac yn dewis yn annibynnol o blith yr adnoddau sydd wedi'u storio ar uchder priodol i'r plant eu cyrraedd. Gwelsom y plant yn mynd at y bocsys storio teganau ar eu pen eu hunain ac yn dewis yn hyderus o blith amrywiaeth o deganau. Mae'r plant yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac yn mynegi eu hunain yn hyderus i'r gwarchodwr plant. Er enghraifft, mae'r plant sy'n gallu siarad yn hyderus yn gofyn am ddiod o ddŵr ac mae'r babanod iau yn mynegi eu dymuniadau drwy roi teganau i'r gwarchodwr plant.

Mae gan y plant gydberthynas gynnes a hamddenol â'r gwarchodwr plant ac maent yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, mae'r plant yn eistedd ac yn cael maldod gan y gwarchodwr plant wrth gael stori, ac wrth eu bodd wrth edrych ar y lluniau. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r arferion a'r disgwyliadau sy'n eu helpu i feithrin ymdeimlad o berthyn. Gwelsom y plant yn chwarae â'u hoff degan cyfarwydd ac yn canu hwiangerddi roeddent wedi'u dysgu mewn cylch chwarae lleol y maent yn mynd iddo gyda'r gwarchodwr plant.

Mae'r plant yn mwynhau cyd-chwarae. Maent yn sgwrsio'n naturiol â'r gwarchodwr plant am yr hyn y maent yn ei wneud ac maent yn awyddus i'w chynnwys wrth chwarae. Er enghraifft, gwnaeth y plant hufen iâ a danteithion eraill yn y gegin chwarae rôl a'u rhoi i'r gwarchodwr plant a ddywedodd eu bod yn flasus iawn. Mae'r plant yn cydweithredu ac yn fwy na pharod i rannu adnoddau, gan eu trin â gofal a pharch. Gwelsom y plant yn codi'r peli pom pom bach yn ofalus ar ôl chwarae gêm paru lliwiau â nhw.

Mae'r gweithgareddau sydd ar gael i'r plant o fudd iddynt, ac maent yn canolbwyntio am gyfnod priodol o amser. Gwelsom y plant iau yn mwynhau llenwi a gwagio bowlenni â bwyd pren, a'r plant hŷn yn cwblhau gweithgaredd tynnu llun â thema cerbydau. Mae'r plant yn ymroi'n llwyr i'r gweithgareddau chwarae ac yn cael cyfleoedd i arwain y dysgu eu hunain. Er enghraifft, ar ôl cwblhau gweithgaredd tynnu llun a gynlluniwyd, defnyddiodd y plant y peniau i greu eu lluniau eu hunain, gan eu dangos yn llawn balchder.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth ac yn cael eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain. Er enghraifft, mae'r plant yn casglu eu bagiau newid eu hunain cyn newid eu cewynnau, yn golchi eu dwylo eu hunain ac yn dewis teganau yn annibynnol.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n wybodus am y gweithdrefnau i'w dilyn pe bai ganddi unrhyw bryderon am blentyn yn ei gofal. Ar hyn o bryd, mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru, ond ni chyfeirir at y canllawiau hyn o gwbl yn ei pholisi diogelu. Nid yw'r polisi plant coll yn nodi y bydd y gwarchodwr plant yn hysbysu'r bwrdd diogelu lleol os bydd rhywbeth yn digwydd. Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig diweddaraf, sy'n ei galluogi i ddelio ag unrhyw ddamweiniau neu argyfyngau a all ddigwydd. Mae'n cadw cofnod ysgrifenedig o ddamweiniau ac anafiadau sylweddol sy'n bodoli eisoes; mae'r rhieni yn llofnodi'r ffurflenni hyn ac yn cael copi. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes yn cael eu monitro er mwyn nodi pryderon diogelu posibl. Ers yr arolygiad, dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod wedi cyflwyno system i fonitro'r cofnodion hyn. Mae gan y gwarchodwr plant foch cwta sy'n byw yn y sied yn yr ardd. Mae ganddi bolisi anifeiliaid anwes ar waith ac mae'n asesu'r risgiau posibl i'r plant ac yn eu lleihau neu'n eu dileu lle y bo'n bosibl. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi trefniadau ac arferion glanhau effeithiol ar waith er mwyn helpu i atal germau rhag lledaenu. Er enghraifft, mae'n golchi ei dwylo ar ôl helpu i sychu trwynau'r plant ac mae'n sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo'n rheolaidd. Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i gael deiet iach drwy ddarparu prydau maethlon a dŵr drwy gydol y dydd.

Mae'r gwarchodwr plant yn fagwrus, yn ofalgar ac yn dangos parch tuag at y plant. Mae hyn yn helpu'r plant i ddeall y disgwyliadau o ran eu hymddygiad yn ei chartref a sut i fod yn garedig tuag at ei gilydd. Mae'n defnyddio strategaethau cadarnhaol yn rheolaidd i hyrwyddo ymddygiad da, yn unol â'i pholisi rheoli ymddygiad. Fe'i gwelsom yn canmol y plant wrth iddynt rannu eu teganau neu ddangos caredigrwydd a pharch tuag at ei gilydd. Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda ac yn deall sut i ddiwallu eu hanghenion unigol. Er enghraifft, cynigiodd ginio ac amser cysgu cynharach i'r plant ar ôl iddi sylwi eu bod wedi blino.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig dewis da o gyfleoedd chwarae a dysgu heriol a boddhaus, a hynny dan do ac yn yr awyr agored, er mwyn hybu datblygiad cyffredinol y plant. Mae'n cadw cofnodion ffurfiol o gynnydd y plant nad ydynt wedi dechrau mynd i'r ysgol yn llawn amser eto. Mae'r gwarchodwr plant yn helpu'r plant i ddysgu am amrywiaeth o ddiwylliannau drwy ddathlu gwyliau'r byd, digwyddiadau arbennig a digwyddiadau crefyddol drwy gydol y flwyddyn. Mae ganddi gynllunydd gweithgareddau misol sy'n nodi gwahanol themâu, er enghraifft y tywydd/tymhorau, anifeiliaid, cerbydau, a phlanhigion a blodau. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn effeithiol. Fe'i clywsom yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg drwy gydol y dydd. Mae'n mynd â'r plant allan yn rheolaidd i fannau lleol, fel cylchoedd chwarae, y parc ac ardal chwarae meddal sy'n datblygu eu sgiliau corfforol a'u sgiliau cymdeithasol.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr eiddo yn ddiogel. Mae'n cadw'r drws ffrynt dan glo, mae giât ddiogelwch er mwyn mynd i mewn i'r gegin, ac mae'r ardd gefn yn ddiogel. Mae ganddi arferion hylendid da sy'n sicrhau bod pob rhan o'r cartref a'r adnoddau yn lân. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal gwiriadau diogelwch dyddiol er mwyn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant. Mae'n cwblhau asesiadau risg addas ar gyfer pob rhan o'i chartref ac ar gyfer teithiau rheolaidd, fel cerdded i'r ysgol leol. Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu ac yn diweddaru'r asesiadau risg yn rheolaidd, sy'n sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn effeithiol wrth gadw'r plant yn ddiogel. Mae'n cynnal ymarferion tân bob mis, fel bod y plant yn gwybod sut i adael yr adeilad mewn argyfwng. Mae'r holl wiriadau cynnal a chadw rheolaidd ar gyfer yr adeilad a'r dyfeisiau yn gyfredol. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ganddi yswiriant car ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn gyfeillgar i blant. Mae'n darparu ardal olau a mawr i'r plant chwarae a dysgu. Ceir ystafell chwarae ddynodedig sydd wedi'i threfnu mewn ffordd ddeniadol er mwyn i'r plant allu gwneud eu dewisiadau eu hunain am yr eitemau y maent am chwarae â nhw. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth eang o deganau, gemau a chyfarpar ac yn eu trefnu'n dda, fel gall y plant gael gafael arnynt yn hawdd. Mae posteri lliwgar ar y wal sy'n creu amgylchedd hapus a chroesawgar, yn ogystal ag ardal lyfrau gyfforddus i'r plant ymlacio ynddi. Mae'r gwarchodwr plant wedi gosod goleuadau sy'n disgleirio yn y gornel gyfforddus sy'n creu awyrgylch cynnes a hamddenol. Fodd bynnag, nid oedd y goleuadau wedi'u gosod yn ddiogel er mwyn sicrhau eu bod allan o gyrraedd y plant. Mae ystafell fyw/ystafell fwyta'r gwarchodwr plant yn cynnig ardal gynnes a chyfforddus dan do, gan fod y dodrefn meddal a'r soffa gyfforddus yn darparu man addas i'r plant ymlacio. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr ardal chwarae awyr agored mewn cyflwr da ac yn cyflwyno cyfleoedd diddorol i'r plant. Gwelsom amrywiaeth eang o deganau awyr agored a oedd yn addas o ran oedran y plant, gan gynnwys trampolîn, siglen, llithren, goliau pêl droed, teganau olwyn, pwll tywod a chegin chwarae.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y teganau a'r cyfarpar yn lân ac mewn cyflwr da. Mae ganddi ddodrefn ac adnoddau o ansawdd da i gefnogi annibyniaeth y plant. Er enghraifft, byrddau a chadeiriau o faint addas i blant, bachau cotiau ar lefel isel, a stoliau camu i'r plant ddefnyddio'r toiledau a sinciau. Mae sebon hylif a thywelion papur ar gael yn yr ystafell ymolchi, ac maent yn hawdd eu cyrraedd er mwyn cefnogi annibyniaeth y plant wrth olchi eu dwylo.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Da**

Mae'r gwarchodwr plant yn rhedeg gwasanaeth effeithlon, mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer ei lleoliad a dealltwriaeth dda o'i rôl a'i chyfrifoldebau rheoliadol. Mae ganddi amrywiaeth o bolisïau sy'n ei galluogi i redeg ei gwasanaeth yn ddiogel ac yn effeithiol. Caiff y polisïau hyn eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn iddynt gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. Mae gan y gwarchodwr plant ddatganiad o ddiben manwl, sy'n rhoi disgrifiad clir a chywir o'r lleoliad. Mae hyn yn golygu y gall rhieni wneud penderfyniad gwybodus o ran p'un a all y lleoliad ddiwallu eu hanghenion nhw a'u plentyn ai peidio. Mae'n cofnodi presenoldeb y plant yn gywir yn ogystal ag unrhyw ymwelwyr â'r cartref.

Mae gan y gwarchodwr plant ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun ac o'i busnes gwarchod plant. Mae ganddi systemau da ar waith i fyfyrio ar ansawdd ei gwasanaeth ac mae'n awyddus i wneud gwelliannau parhaus. Mae'n ystyried adborth gan y rhieni a'r plant ac yn defnyddio'r ymatebion i lywio gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae'r gwarchodwr plant wedi mynd i'r afael ag argymhellion o arolygiadau blaenorol ac wedi gwneud newidiadau cadarnhaol i'r lleoliad a'r gofal a ddarperir.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall pwysigrwydd ymgymryd â'r hyfforddiant diweddaraf er mwyn sicrhau ei bod yn dilyn yr arferion gorau cyfredol. Mae'n sicrhau bod yr holl hyfforddiant gorfodol megis cymorth cyntaf pediatrig a diogelu yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Mae wedi cofrestru â'r gwasanaeth datgelu a gwahardd (DBS) ar-lein ac mae gwiriadau DBS cyfredol gan bob aelod perthnasol o'r teulu. Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio ar ei phen ei hun. Mae'n trefnu ei hamgylchedd yn llwyddiannus er mwyn gallu goruchwylio'r plant yn ddiogel ac yn dda. Mae gweithdrefnau wedi'u hystyried yn ofalus ar waith ganddi sy'n sicrhau bod y drefn o ddydd i ddydd yn mynd rhagddi'n hwylus.

Mae gan y gwarchodwr plant bartneriaethau agos â'r rhieni, sy'n canmol ei gwasanaeth a'r gofal magwrus a roddir i'w plant yn fawr. Mae'n casglu gwybodaeth fanwl gan y rhieni am anghenion unigol eu plant cyn i'r gofal ddechrau. Mae hyn yn rhoi cyfle iddi gynllunio'n effeithiol ac i weithio gyda'r teuluoedd, gan sicrhau bod y plant yn trosglwyddo'n hwylus i'w gofal. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am brofiadau eu plant drwy anfon negeseuon diweddaru rheolaidd atynt drwy gydol y dydd. Mae'r gwarchodwr plant yn mynd i gylch chwarae gyda gwarchodwyr plant eraill, sy'n rhoi cyfle iddi gael cymorth, ac yn cynnig cyfleoedd i ehangu profiadau cymdeithasol y plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 20 – Amddiffyn plant | Sicrhau bod y polisi diogelu yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru |
| Safon 20 – Amddiffyn plant | Diweddaru'r polisi plant coll er mwyn nodi y caiff y bwrdd diogelu lleol ei hysbysu os bydd rhywbeth yn digwydd |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau bod y goleuadau cadwyn yn ddiogel a'u bod allan o gyrraedd y plant |
| Safon 5 - Cofnodion | Ffurfioli system ar gyfer cofnodi a monitro damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/05/2024